# Pwyllgor Adfywio

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mawrth, 2019

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Mr Bob Parry OBE FRAgS (Cadeirydd)<br>Mr J Arwel Roberts (Is-gadeirydd)<br><br>Y Mri John Griffith, Richard Griffiths, Carwyn Jones, R Meirion Jones a Eric Wyn Jones |
| **WRTH LAW:** | Trysorydd<br><br>**Swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn (cyfeirir atynt yma yn ôl teitlau eu swyddi gyda CSYM)**<br><br>Rheolwr Grantiau (JW),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Mri Bryan Owen, Alun Roberts |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr T Ll Hughes MBE – Cadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn<br>Mr R O Jones – Is-gadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn |

---

### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Gwnaeth Mr Richard Griffiths ddatganiad o ddiddordeb a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 4 – Ceisiadau am Grantiau Mawr 2019/20 – Caru Amlwch ac ni chymerodd ran yn y bleidlais ar yr eitem.

Gwnaeth Mr Richard O Jones ddatganiad o ddiddordeb a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 4 – Ceisiadau am Grantiau Mawr 2019/20 – Caru Amlwch a ni chymerodd ran yn y bleidlais ar yr eitem.

Gwnaeth Mr J Arwel Roberts ddatganiad o ddiddordeb personol mewn perthynas ag Eitem 4 – Ceisiadau am Grantiau Mawr 2019/20 – Meithrinfa Morlo.

### 2 COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Chwefror, 2019.

### 3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD:-**

**"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar sail y tebygolrwydd y gall gwybodaeth gael ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

### 4 CEISIADAU GRANTIAU MAWR 2019/20

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Trysorydd ar yr uchod.

Dywedodd y Trysorydd y derbyniwyd 29 o geisiadau'n wreiddiol ac y cafodd y rheiny ystyriaeth gychwynnol gan y Pwyllgor hwn yn ei gyfarfod ar 13 Chwefror, 2019. Penderfynodd y Pwyllgor roi 14 o geisiadau am grantiau ar restr fer ar gyfer asesiad manylach ac er mwyn derbyn gwybodaeth

bellach am y ceisiadau hyn yn ôl yr angen. Nodwyd bod y Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau yn ei gyfarfod ar 6 Tachwedd, 2018 wedi penderfynu argymell i'r Ymddiriedolaeth Elusennol Iawn fod £350k yn cael ei ryddhau tuag ag ariannu grantiau mawr yn 2019. Yn ei gyfarfod ar 23 Ionawr, 2019, penderfynnodd yr Ymddiriedolaeth Elusennol Iawn gymeradwyo'r argymhelliad.

Cafwyd trafodaeth fanwl ar y 14 cais a oedd ar y rhestr fer a **PHENDERFYNWYD argymell fel a ganlyn i'r Ymddiriedolaeth Elusennol Iawn yn ei gyfarfod ar 16 Ebrill, 2019:-**

- **Bod 12 o'r ceisiadau am grantiau a oedd ar y rhestr fer yn cael eu cefnogi gydag 11 ohonynt yn derbyn y swm y gofynnwyd amdanol ac un yn derbyn swm llai na'r un y gofynnwyd amdano;**
- **Nad oedd 1 o'r 14 cais ar y rhestr fer wedi bod yn llwyddiannus;**
- **Anfon 1 o'r 14 cais ar y rhestr fer ymlaen i'r Ymddiriedolaeth Iawn i'w ystyried ar gyfer ei ariannu y tu allan i'r broses flynyddol ar gyfer dyfarnu grantiau mawr;**
- **Bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Ymddiriedolaeth Elusennol Iawn gyda'r symiau a argymhellir fel y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Adfywio.**

**Mr Bob Parry OBE FRAgS**
**Cadeirydd**